# Ysgol Gymraeg Cwmbrân

Ffordd Henllys,
Cwmbrân,
Torfaen,
NP44 4HB.

Ffôn/Telephone: 01633 483383
www.ysgolgymraegcwmbran.co.uk
Twitter : @YGCwmbran
Schoop: 10319

**Pennaeth/Headteacher: Miss C Evans**

*Cawsom Iaith i'w Chadw*


24/06/22

Annwyl Riant / Warcheidwad

**<u>NEWYDDION A THREFNIADAU DIWEDD Y FLWYDDYN ACADEMAIDD</u>**

Rydym yn agosáu at ddiwedd blwyddyn arall. Rydym wedi wynebu nifer o heriau eleni eto, ond rydym yn falch o allu eich croesawu yn ôl i'r ysgol ar gyfer rhai o'n digwyddiadau traddodiadol diwedd blwyddyn sef y Mabolgampau a gwasanaeth gadael Blwyddyn 6.

Yn anffodus, byddwn yn ffarwelio â thri aelod o staff sydd wedi bod yn aelodau pwysig iawn o deulu Ysgol Gymraeg Cwmbrân ers blynyddoedd lawer. Dymunwn y gorau i'r dyfodol i Mrs Griffiths Jones, Mr Bridson a Miss Stockman.

Mae Mr Bridson yn mynd i arwain blynyddoedd 3 a 4 yn Ysgol Bro Eirwg sydd yng Nghaerdydd. Mae Mrs Griffiths Jones yn mynd i gael blas ar ddysgu mewn ysgol uwchradd yng Nghaerdydd (Ysgol Plasmawr) ac mae Miss Stockman yn symud i fyw yng Ngorllewin Cymru. Diolchwn iddynt am eu hymroddiad, eu gwaith caled a'r profiadau niferus y maent wedi'u darparu i gynifer o ddisgyblion dros y blynyddoedd. Bydd colled mawr ar eu holau i gyd.

Bydd Mr Ben James, sydd wedi gweithio gyda ni am ran helaeth o'r flwyddyn hon, hefyd yn gadael i ddilyn gradd dysgu.

**Dyddiadau pwysig**:
Rydych eisoes wedi derbyn dyddiadau'r tripiau ar gyfer pob dosbarth.

**Dyddiadau eraill i'w nodi:**

| | |
|---|---|
| 27.6.22 | Llun ysgol gyfan – Sicrhewch bod eich plentyn yn gwisgo gwisg ysgol y diwrnod hwnnw. |
| 4.7.22 | Hyfforddiant Staff – ysgol ar gau i'r disgyblion. |
| 7.7.22 | Mabolgampau |
| 8.7.22 | Ail ddyddiad ar gyfer y Mabolgampau os yw'n glawio ar y 7.7.22. |
| 15.7.22 | Ffair Haf |
| 20.7.22 | Gwasanaeth gadael Blwyddyn 6 |

Bydd yr ysgol yn cau am wyliau'r haf am **1:30yp** ar ddydd Gwener, 22 Gorffennaf. Byddwn yn croesawu disgyblion yn ôl ar gyfer Tymor yr Hydref ar **Ddydd Mawrth, Medi 6ed.**

Yn gywir

*C N Evans*

**C N Evans**

Cawsom Iaith i'w Chadw

Ysgol Gymraeg Cwmbrân

Ffordd Henllys,
Cwmbrân,
Torfaen,
NP44 4HB.

Ffôn/Telephone: 01633 483383
www.ysgolgymraegcwmbran.co.uk
Twitter : @YGCwmbran
Schoop: 10319

Pennaeth/Headteacher: Miss C Evans

24/06/22

Dear Parent / Guardian

***NEWS AND ARRANGEMENTS FOR THE END OF THIS ACADEMIC YEAR***

*We are nearing the end of another year. This year has not been without its challenges, but we are pleased to be able to welcome you back into the school for some of our traditional end of year events such as Sports Day and the Year 6 leavers' assembly.*

*Unfortunately, we will be bidding farewell to three members of staff who have been very significant members of the Ysgol Gymraeg Cwmbrân family for many years. We wish Mrs Griffiths Jones, Mr Bridson and Miss Stockman the very best for the future.*

*Mr Bridson is going to lead years 3 and 4 in Ysgol Bro Eirwg in Cardiff. Mrs Griffiths Jones is going to have a taste of teaching in a secondary school (Ysgol Plasmawr) in Cardiff and Miss Stockman is moving to West Wales. We thank them for their dedication, hard work and the very many experiences they have provided for so many pupils over the years. We will miss them greatly.*

*Mr Ben James, who has worked with us for much of this year, will also be leaving to follow a teaching degree.*

***Important dates:***
*You will already have been provided with the dates of upcoming trips for each class.*

***Other dates to note:***

| | |
|---|---|
| *27.6.22* | *Whole school photo – Please ensure that your child wears their school uniform on that day.* |
| *4.7.22* | *Staff training – School closed to pupils.* |
| *7.7.22* | *Sports Day.* |
| *8.7.22* | *Second date for Sports Day if raining on the 7.7.22.* |
| *15.7.22* | *Summer Fayre.* |
| *20.7.22* | *Year 6 leavers' assembly.* |

*School will close for the summer holidays at* ***1:30pm*** *on Friday, 22nd July. We will welcome pupils back for the Autumn Term on* ***Tuesday, 6th September.***

Yours sincerely

*C N Evans*

**C N Evans**